

Y CABINET

Dyddiad y Cyfarfod	23 Chwefror 2023
Testun yr Adroddiad	Strategaeth Newid Hinsawdd
Aelod Cabinet	Cydggyfrifoldeb
Awdur yr Adroddiad	Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi)
Math o Adroddiad	Strategol

CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn 2019, daeth galwad gan Lywodraeth Cymru i'r Sector Cyhoeddus fod yn garbon sero net erbyn 2030. Yn dilyn y datganiad hwn, roedd y Cabinet wedi penderfynu ym mis Rhagfyr 2019 ar Strategaeth Newid Hinsawdd a fyddai'n gosod amcanion allweddol a chamau i greu Cyngor carbon sero net erbyn 2030.

Cafodd y Strategaeth Newid Hinsawdd a'r cynllun gweithredu eu mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Chwefror 2022. Roedd y strategaeth yn manylu'r ymrwymiad i ddarparu diweddariad blynyddol ar allyriadau carbon y Cyngor gan roi ystyriaeth i feysydd pellach ar gyfer datblygu i gyflawni'r nod sero net.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn 2021/22 ar draws y prif themâu yn y strategaeth: Adeiladau, Symudedd a Chludiant, Caffael, Defnydd Tir ac Ymddygiad.

Gwelwyd cynnydd o 1% yng nghyfanswm yr allyriadau carbon ar gyfer 2021/22 o waelodlin 2018/09. Mae pob ffynhonnell allyriadau carbon wedi gweld gostyngiad y tu hwnt i'r targedau canran, heblaw am Gaffael a welodd gynnydd o 24%. Mae'r allyriadau o'r ffynhonnell yma'n uniongyrchol gysylltiedig â gwerth gwariant ac felly, mae'r fethodoleg bresennol yn effeithio'n andwyol ar gyfanswm ôl-troed carbon y Cyngor.

Mae'r gwaith o symud y fflyd ceir i ddewisiadau carbon isel eraill a darparu isadeiledd gwefru cerbydau trydan ar gyfer fflyd y Cyngor yn mynd rhagddo'n araf. Mae yna hefyd angen i sefydlu newid hinsawdd a lleihau carbon ar draws y Cyngor, a gallai mwy o welededd a darparu hyfforddiant gyflawni hyn.

Yn olaf, bydd rheoli datblygiad ynni effeithlon yn ein hadeiladau yn galluogi gostyngiadau parhaus ar gyfer y thema hon.

Mae ar y meysydd hyn angen ffocws penodol a chefnogaeth refeniw dros y blynyddoedd i ddod er mwyn cyflymu datgarboneiddio ac i aros ar y trywydd tuag at y nod o fod yn sero net erbyn 2030.

ARGYMHELLION

1	Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.
2	Cefnogi gwelliannau i gyfathrebu mewnol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnydd cadarnhaol y Cyngor wrth symud ymlaen tuag at gyflawni ei uchelgeisiau newid hinsawdd.
3	Cefnogi'r gwaith o gychwyn ymwreiddio mesurau carbon i mewn i brosesau caffael o fewn portffolio peilot y Cyngor.
4	Cefnogi'r achos dros swydd ac adnoddau Buddsoddi i Arbed er mwyn cyflwyno Systemau Rheoli Adeiladau o fewn mwy o'n hadeiladau, i wella'r broses o reoli'r defnydd o ynni.
5	Cefnogi'r gwaith o ymwreiddio egwyddorion newid hinsawdd drwy'r Cyngor cyfan, drwy gyflwyno hyfforddiant Llythrennedd Carbon i Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr a swyddogion eraill sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.

MANYLION YR ADRODDIAD

1.00	ESBONIO'R ADRODDIAD
1.01	Cefndir: Yn 2019, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru, gan dderbyn yr argymhellion gan Bwyllgor y Deyrnas Unedig (y DU) ar Newid Hinsawdd a gosod cynlluniau uchelgeisiol pellach i'r sector cyhoeddus fod yn ddi-garbon net erbyn 2030. Ym mis Rhagfyr 2019, penderfynodd y Cabinet ddatblygu Strategaeth Newid Hinsawdd a fyddai'n gosod amcanion allweddol a chatau i greu Cyngor carbon sero net, a mabwysiadwyd y strategaeth hon a'r cynllun gweithredu gan y Cyngor ym mis Chwefror 2022.
1.02	Pwrpas: Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â newid hinsawdd o fabwysiadu'r Strategaeth Newid Hinsawdd ym mis Chwefror 2022 i fis Ionawr 2023. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn o 12 mis, mae'r ffocws wedi bod ar weithredu prosiectau allweddol wrth wneud y gwaith ymchwil a datblygu angenrheidiol sydd ei angen i wneud cynnydd o fewn meysydd blaenoriaeth eraill. Mae'r adroddiad yn cymharu'r data allyriadau carbon diweddaraf (Ebrill 2021 - Mawrth 2022) yn erbyn data'r flwyddyn flaenorol, ac yn egluro meysydd o gynnydd a gostyngiad. Mae'r adroddiad wedyn yn dadansoddi'r cynnydd ym mhob thema yn y Cynllun Gweithredu a gyhoeddwyd, ac yn dechrau dangos ym mhle mae angen

	adnoddau Cyfalaf a Refeniw i wneud cynnydd pellach o fewn y camau hyn.																								
1.03	<p>Mae'r strategaeth Newid Hinsawdd yn nodi cynllun cerrig milltir ar gyfer meysydd thema allweddol. Mae Atodiad 1 yn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targed blynyddol ar gyfer allyriadau er mwyn aros ar y trywydd cywir o ran ein nod carbon sero net.</p> <p>Gellir crynhoi hyn yn y tabl isod:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Thema</th> <th>Cyfanswm tCO₂e 2018/19</th> <th>Cyfanswm tCO₂e 2019/20</th> <th>Cyfanswm tCO₂e 2020/21</th> <th>Cyfanswm tCO₂e 2021/22</th> <th>Targed tCO₂e 2021/22 (% gostyngiad)</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Adeiladau</td> <td>10,747</td> <td>10,262</td> <td>9,971</td> <td>8,543 (-13%)</td> <td>9,004 (9%)</td> </tr> <tr> <td>Symudedd a Chludiant</td> <td>6,716</td> <td>6,542</td> <td>5,479*</td> <td>5,504 (-16%)</td> <td>5,938 (9%)</td> </tr> <tr> <td>Caffael</td> <td>28,970</td> <td>29,227</td> <td>25,366</td> <td>32,446 (+24%)</td> <td>23,337 (8%)</td> </tr> </tbody> </table> <p>*Oherwydd cofnodion a gadwyd yn ystod y pandemig, yn 2020/21, nid oedd y ffigurau ar gyfer cymudo gan weithwyr wedi'u cynnwys yn flaenorol. Amcangyfrif yw'r data sydd wedi'i nodi uchod.</p> <p>Mae'r tabl yn nodi'r gostyngiadau a wnaed yn 2021/22 yn erbyn gwaelodlin 2018/19. Gwelwyd cynnydd o ran allyriadau Caffael oherwydd y cynnydd mewn gwariant yn 2021/22. Mae'r holl themâu allweddol eraill wedi gweld gostyngiadau o ran allyriadau carbon wrth i ni ddatblygu ffyrdd newydd o weithio ar ôl y pandemig.</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar draws y Cyngor er mwyn bod yn Gyngor Carbon Sero Net erbyn 2030. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n 5 thema allweddol: Adeiladau, Symudedd a Chludiant, Caffael, Defnydd Tir ac Ymddygiad. I fonitro cynnydd ym mhob un o'r themâu hyn, sefydlwyd Gweithgorau Swyddogion gyda chynrychiolaeth gan fudd-ddeiliaid allweddol ar draws holl bortffolios y Cyngor. Mae hon yn ffordd arall o ymwreiddio newid hinsawdd drwy'r Cyngor, ac mae camau gweithredu ar Newid Hinsawdd ac Addasu Hinsawdd yn parhau i gael eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor.</p> <p>Mae 58 cam o fewn y Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys camau lliniaru a gwytnwch. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ddogfen weithio a fydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd pan fydd gwybodaeth bellach ar gael i wella rhagolygon lleihau carbon. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu hwn wedi'i nodi yn Atodiad 2, ac wedi'i grynhoi isod.</p>	Thema	Cyfanswm tCO ₂ e 2018/19	Cyfanswm tCO ₂ e 2019/20	Cyfanswm tCO ₂ e 2020/21	Cyfanswm tCO ₂ e 2021/22	Targed tCO ₂ e 2021/22 (% gostyngiad)	Adeiladau	10,747	10,262	9,971	8,543 (-13%)	9,004 (9%)	Symudedd a Chludiant	6,716	6,542	5,479*	5,504 (-16%)	5,938 (9%)	Caffael	28,970	29,227	25,366	32,446 (+24%)	23,337 (8%)
Thema	Cyfanswm tCO ₂ e 2018/19	Cyfanswm tCO ₂ e 2019/20	Cyfanswm tCO ₂ e 2020/21	Cyfanswm tCO ₂ e 2021/22	Targed tCO ₂ e 2021/22 (% gostyngiad)																				
Adeiladau	10,747	10,262	9,971	8,543 (-13%)	9,004 (9%)																				
Symudedd a Chludiant	6,716	6,542	5,479*	5,504 (-16%)	5,938 (9%)																				
Caffael	28,970	29,227	25,366	32,446 (+24%)	23,337 (8%)																				
1.04	<p>Adeiladau</p> <p>Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein hadeiladau i wella eu heffeithlonrwydd ynni a'r allyriadau carbon dilynol. Rydym wedi llwyddo i sicrhau benthyciadau Salix, benthyca darbodus, grantiau Llywodraeth Cymru ac wedi defnyddio arian mewnol i wneud gwaith ar draws ein hystâd yn cynnwys ysgolion, unedau diwydiannol a goleuadau stryd. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys uwchraddio i oleuadau LED, gwell ynysu ac uwchraddio'r System Rheoli Adeiladau (BMS) i wella'r ffordd o reoli ynni. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ar</p>																								

	<p>adeiladau i leihau'r angen am drydan o'r grid drwy osod paneli solar a thyrbiniau gwynt ar ysgolion ac unedau diwydiannol.</p> <p>Oherwydd y gwaith hwn, rydym wedi gweld gostyngiad o 3% mewn gwres o adeiladau, gostyngiad o 37% mewn trydan o adeiladau a gostyngiad o 44% mewn trydan gan oleuadau stryd.</p> <p>Mae gwaith wedi bod ar y gweill i ddylunio a datblygu ysgol di-garbon net gyntaf y Cyngor ac rydym yn dangos arweinyddiaeth eto drwy gynllun peilot ar gyfer Cartref Gofal Carbon Sero Net, sef un o'r rhai cyntaf yng Nghymru.</p> <p>Mae'r gwaith o ad-drefnu asedau yn parhau wrth i'r Cyngor symud o gyfnod y pandemig a chrosawu ffyrdd newydd o weithio. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau wedi cael ei adolygu i adlewyrchu dyheadau carbon y Cyngor wrth i asedau tir ac adeiladau ddod ar gael.</p> <p>Mae cyfleoedd pellach yn bodoli i ddatgarboneiddio ein hadeiladau ac mae angen sicrhau bod adnoddau penodol ar gael i symud ymlaen â hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i roi cyngor a chymorth ar ynni i eiddo domestig - i denantiaid y Cyngor ac aelwydydd preifat. Mae'r tîm yn gweithio i leihau'r risg o dlodi tanwydd ac mae'n gweithio gyda phreswylwyr a chontractwyr i osod mesurau lleihau ynni mewn cartrefi yn cynnwys inswleiddio, bylbiau golau LED, mesuryddion defnydd ynni, ynni solar a systemau gwresogi gwell megis pypiau gwres yr awyr.</p> <p>O ran ein strategaeth economaidd, mae cynlluniau lleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer pob canol tref yn y sir dros y flwyddyn nesaf. Bydd y cynlluniau hyn yn ein helpu i ddeall yr anghenion adfywio yn ein cymunedau trefol ac yn ystyried lliniaru ac addasu carbon ac effeithiau amgylcheddol yn yr ardaloedd hyn. Bydd y cynlluniau yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'n hasedau presennol a phosibl ac yn llywio penderfyniadau i sicrhau bod y sir yn ffynnu ac yn cefnogi lles ein preswylwyr.</p>
1.05	<p>Symudedd a Chludiant</p> <p>Yn 2021/22 gwelsom ostyngiad o 51% mewn teithio Busnes, gostyngiad o 11% mewn cymudo gan weithwyr a gostyngiad o 15% yn y Fflyd, o'i gymharu â gwaelodlin 2018/19.</p> <p>Gall y gostyngiad o ran Teithio Busnes a Chymudo gan Weithwyr gael ei briodoli i batrymau gweithio hybrid y gweithlu yn dilyn y pandemig. Mae gan y data ar gyfer y ddau faes yma Wyriad Safonol Perthynol cymharol uchel oherwydd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu allyriadau. Gellir lleihau'r Gwriad Safonol Perthynol ar gyfer y data hwn drwy wella'r data cerbydau rydym yn ei gasglu yn ein ffurflenni hawlio treuliau teithio ar gyfer Milltiroedd Busnes, a thrwy arolygu gweithle ein gweithwyr er mwyn pennu dulliau teithio a nifer y dyddiau a deithiwyd ar gyfartaledd ym maes Cymudo gan Weithwyr. Byddai hyn hefyd yn ein helpu ni i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau gweithio gartref ar ôl troed carbon y Cyngor.</p>

	<p>Byddai darparu cynllun aberthu cyflog ar gyfer ULEV hefyd yn gwella ein hallyriadau o'r ffynonellau hyn.</p> <p>Mae'r Cyngor yn gweithio i ddeall effaith y trosglwyddo i gerbydau tanwydd amgen ac mae cynlluniau peilot yn cynnwys cerbydau ailgylchu trydan a 2 fws trydan wedi cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y profion hyn yn caniatáu i ni ddeall y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo, a chael gwell cwmpas o'r rhwydwaith, yr isadeiledd a'r hyfforddiant sydd eu hangen er mwyn trosglwyddo, tra'n atal unrhyw effeithiau andwyol i ddarpariaeth gwasanaeth.</p> <p>Mae'r effaith fwyaf yn y maes hwn yn dod o'n Fflyd ein hunain. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cynllun Trosglwyddo Cerbydau Trydan y Cyngor yn unol â gosod pwyntiau gwefru trydan ac adnewyddu contract y Fflyd. Mae gan y prosiect hwn amryw o ffactorau sy'n cyfrannu ato, sy'n effeithio ar nifer o bortffolios y Cyngor. Mae sawl agwedd ar y cyflwyniad hwn a allai fod yn niweidiol i ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor os nad ydynt yn cael eu cwblhau'n gywir. Mae angen sgiliau a gwybodaeth benodol i ddatblygu a gweithredu'r cynllun hwn ar draws y Cyngor - goruchwylio agweddau gweithredol ar leoliadau pwyntiau gwefru, rheoli llwybrau cerbydau, darparu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio a gofalu am gerbydau trydan, gwaith cynnal a chadw parhaus, a sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu â'r broses. Mae angen i'r Cyngor fuddsoddi mewn staff penodol i reoli ochr weithredol y cyfnod trosglwyddo hwn er mwyn lleihau'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.</p> <p>Rydym wedi buddsoddi mewn isadeiledd gwefru cerbydau trydan i gefnogi'r trosglwyddo cyhoeddus i gerbydau trydan. Gan weithio gyda SWARCO, mae'r cam cyntaf o osod 15 pwynt gwefru cerbydau trydan ar draws y sir mewn meysydd parcio cyhoeddus, wedi'i gwblhau. Fe allai dichonoldeb ar gyfer camau pellach olygu darpariaeth ychwanegol mewn lleoliadau adnabyddus.</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei rwydwaith teithio llesol ar draws y sir drwy nodi bylchau yn y rhwydwaith a'u llenwi. Fe allai Diwygio Bysiau gan Lywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â masnachfreinio'r Rhwydwaith Bysiau, gael effaith ar gynlluniau presennol mewn perthynas â chludiant cyhoeddus.</p>
1.06	<p>Caffael</p> <p>Yn 2021/22, gwelsom gynnydd o 24% mewn allyriadau carbon o'r gadwyn gyflenwi. Mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chynnydd mewn gwariant drwy'r Cyngor cyfan yn 2021/22. Mae'r cynnydd mewn gwariant oherwydd cynyddiadau chwyddiant ac mae sawl sefydliad sector cyhoeddus arall yn yr un sefyllfa.</p> <p>Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ystyried sut y gallwn gynnwys ystyriaethau newid hinsawdd yn ein caffael mewn ffordd sy'n gymesur a pherthnasol ac sy'n dylanwadu ar y farchnad. Mae lleihau allyriadau o nwyddau a gwasanaethau rydym yn eu caffael yn rhan sylweddol o'n hymateb i'r hinsawdd.</p>

	<p>Mae ffigwr adrodd Caffael yn parhau i fod yn ddadleuol oherwydd ei fod yn seiliedig ar werth y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael. Bydd yn parhau i newid yn unol â gwariant y Cyngor ac felly'n ffynhonnell allyriadau carbon anrhagweladwy nes y gallwn ddangos allyriadau carbon gwirioneddol o fewn contractau.</p> <p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys cynllun carbon gofynnol ym mhob contract dros £5 miliwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Bydd yr effeithiau mwyaf yn dod o sefydlu meini prawf ar gyfer sgorio tendrau ar allyriadau carbon o bob contract. Bydd hyn yn caniatáu i ni ychwanegu pwysoliad penodol ar gyfer carbon i'r prosesau tendro a monitro'r contract i gael gwybod cyfanswm gwirioneddol yr allyriadau carbon sy'n cael eu cynhyrchu o ganlyniad i'r gwasanaeth hwnnw. Wedyn, gall y ffigyrau hyn gael eu hadrodd fel ffigyrau allyriadau carbon gwirioneddol yn lle gwerth y contract.</p> <p>Mae allyriadau Caffael wedi'u rhannu i sawl categori ac felly rydym yn gallu manylu ar y meysydd gwariant allweddol. Y rhain yw: Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Adeiladu, Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Proffesiynol eraill. Gallwn ganolbwyntio ar gyflwyno mesurau carbon o fewn y meysydd gwariant allweddol hyn i sicrhau effaith uchel ar leihau carbon o fewn Caffael.</p> <p>Mae'r Strategaeth Gaffael yn cael ei hadolygu er mwyn cyflwyno mesurau i bwysoli contractau sy'n ystyried effeithiau carbon y contract a chasglu'r data allyriadau carbon hwnnw. Bydd angen gwneud gwaith ymgysylltu gyda chyflenwyr i roi arweiniad iddynt ar ein dyheadau carbon a'r gofyniad ar gyfer y data hwn, a bydd ar Swyddogion y Cyngor angen hyfforddiant i ddeall yr effeithiau carbon.</p> <p>Mae'r gwaith o reoli'r broses hon - gweithio gyda Swyddogion Comisiynu, ein cyflenwyr cyfredol a darpar gyflenwyr i alluogi casglu'r data hwn - yn feichus ac mae angen i'r Cyngor fuddsoddi mewn adnoddau staffio medrus er mwyn gwneud hyn. Efallai bydd cyfleoedd i ddefnyddio adnodd a rennir gyda'n Cyd-bartner Caffael, Cyngor Sir Ddinbych.</p>
1.07	<p>Defnydd Tir</p> <p>Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i ddeall manteision presennol a manteision posibl ei asedau tir. Mae trefniadau gwaith traws adrannol yn cael eu defnyddio i fapio ardaloedd o dir sydd â'r potensial i amsugno carbon yn well, amddiffynfeydd llifogydd naturiol ac enillion net bioamrywiaeth. Rhaid pwysoli'r nodweddion hyn yn erbyn defnydd tir ar hyn o bryd a blaenoriaethau tir eraill. Bydd safleoedd allweddol yn cael eu dynodi eleni i gynnal astudiaethau dichonoldeb.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi dangos arweinyddiaeth gyda buddsoddiad pellach mewn ynni adnewyddadwy drwy lansio dwy fferm solar newydd gyda'r posibilrwydd o gynhyrchu 3MW o drydan. Mae'r rhain yn cyd-fynd â'n ffermydd solar presennol a chreu nwy gwastraff tirlenwi, gyda ffermydd solar ar hen safle tirlenwi Y Fflint, Iard Crumps, Cei Connah, a Standard Road a Brookhill Way, Bwcle.</p>

Mewn partneriaeth â Choleg Prifysgol Llundain, rydym wedi dangos yr angen i arloesi drwy dreialu ynni dŵr ym Mharc Gwepra. Mae'r gosodiad hwn yn brawf o gysyniad y dechnoleg hon i ddarparu ynni adnewyddadwy ar gyfer y Ganolfan Ymwelwyr o lif dŵr.

Drwy fuddsoddi yn y technolegau hyn, gallwn symud Sir y Fflint a Chymru fel cenedl, oddi wrth ynni a gynhyrchir drwy losgi tanwydd ffosil. Mae cyfleoedd pellach yn bodoli i fuddsoddi mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ac mae angen sicrhau bod adnoddau penodol ar gael i symud ymlaen â hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae gwastraff trefol yn parhau i gael ei anfon i Barc Adfer o gyfleuster gwastraff yng Nglannau Dyfrdwy sy'n gallu pweru mwy na 45,000 o gartrefi. Mae gwastraff bwyd ymyl palmant yn cael ei anfon i dreuliwr anaerobig ac mae gwastraff gwyrdd yn cael ei droi'n gompost yn y cyfleuster ym Maes Glas. Mae gwastraff ailgylchu ymyl palmant yn cael ei gasglu a'i ailgylchu ar raddfa fawr yn y DU. Mae cysylltiadau gyda Flintshire Refurbs ac elusennau eraill wedi gwella'r ffordd rydym yn trin gwastraff nwyddau mawr o gartrefi a nwyddau gwyn. Caiff eitemau eu casglu ar ymyl palmant neu eu rhoi i un ochr mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac maent unai'n cael eu hatgyweirio a'u hailddefnyddio neu eu tynnu'n ddarnau er mwyn eu hailgylchu.

Gellir gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ailgylchu yn adeiladau'r Cyngor drwy archwilio ac addysg, ac mae casgliadau ailgylchu ar alw yn cael eu treialu mewn Ysgolion.

Oherwydd bod y ffrydiau hyn yn osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi, mae'r allyriadau carbon o'n gwaelodlin yn dod o'r tanwydd sy'n cael ei ddefnyddio gan y cerbydau casglu gwastraff. Bydd yr allyriadau hyn yn lleihau unwaith y bydd ffynonellau tanwydd amgen effeithiol ar gael ar gyfer y cerbydau defnydd trwm hyn.

O ran rheoli bioamrywiaeth ymhellach, mae gennym bellach rwydwaith o 109 ardal natur ar draws y sir sy'n cynnwys torri llai ar y glaswellt, hau blodau gwyllt ac ati, gydag 11.8ha o'n hystâd laswelltir yn cael ei reoli er mwyn cael amrywiaeth o flodau gwyllt. Mae dal cyfleoedd i ymestyn y rhwydwaith hwn drwy fapio tir ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol. Mae manteision y rhwydwaith hwn yn ymestyn tu hwnt i fioamrywiaeth ac yn darparu man gwyrdd gweladwy a hygyrch i wella lles.

Mae gwaith i gynyddu gorchudd canopi coed yn unol â'r Cynllun Coed a Choetir Trefol wedi cael ei effeithio gan ddifrod storm a'r broblem barhaus o glefyd coed ynni. Mae cynllun gweithredu clefyd coed ynni ar waith ac mae gwaith coed yn cael ei gofnodi a gwaith parhaus gyda thirfeddianwyr preifat.

Mae safleoedd tyfu bwyd cymunedol yn parhau i gael eu gwella ac mae safleoedd posibl eraill wedi cael eu nodi er mwyn eu hystyried ar gyfer tyfu bwyd. Ar hyn o bryd mae 16 safle ar draws y sir yn cwmpasu dros 3.8ha.

1.08

Ymddygiad

Er mwyn ymgorffori newid yn yr hinsawdd, mae gwaith wedi'i wneud i adolygu a diweddarau'r adnoddau i wneud penderfyniadau allweddol yn y Cyngor. Defnyddir yr adnodd Asesiad Effaith Integredig er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i sicrhau y rhoddir sylw dyledus i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau yn sgil anfantais economaidd-gymdeithasol, wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae'n cynnwys effeithiau'r Gymraeg, yr amgylchedd a bioamrywiaeth, effeithiau iechyd ac ati. Mae'r adnodd hwn yn awr yn cynnwys yr effeithiau yn gysylltiedig â charbon i sicrhau bod penderfyniadau strategol yn ystyried ein dyheadau carbon. Mae adolygiad pellach o'r ddogfen hon yn cael ei gynnal i hwyluso ei chwblhau gan y Swyddog, tra'n sicrhau bod y meini prawf effaith yn cael ei fodloni. Mae'r templed achos busnes ar gyfer gwariant cyfalaf wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys y gofyniad i fodelu'r dewis achos gorau o ran carbon a bioamrywiaeth. Mae'r broses hon yn caniatáu i Swyddogion ystyried y dewisiadau lleihau carbon o fewn y broses cynllunio busnes yn effeithiol. Bydd cefnogaeth bellach yn cael ei rhoi i Swyddogion wrth gwblhau'r gofynion newydd yn y ddogfen hon. Mae Cynllun Rheoli Asedau y Cyngor wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau i roi ystyriaeth ddyledus i effeithiau carbon sy'n ymwneud â'n hasedau adeiladau yn ogystal ag ystyriaeth o ddefnydd tir i gefnogi dyheadau carbon. Mae'r Strategaeth Gaffael hefyd yn cael ei hadolygu fel y disgrifiwyd yn flaenorol.

Er mwyn cefnogi'r broses o sefydlu newid hinsawdd ar draws y Cyngor, newidiwyd y Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd yn Bwyllgor Newid Hinsawdd ac fe sefydlwyd Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi. Mae gan y Bwrdd drosolwg ar ddarpariaeth y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu.

O ran ymwreiddio carbon i mewn i brosesau gwneud penderfyniadau y Swyddogion ac Aelodau, mae cam cyntaf cyflwyno'r hyfforddiant llythrennedd carbon wedi cael ei gynnal. Dylai hyfforddiant llythrennedd carbon fod yn orfodol ar gyfer Aelodau Etholedig ac Uwch Reolwyr ar draws y sefydliad. Mae'r goblygiadau o ran cost i'r Cyngor wedi cael eu lleihau drwy gynnig darpariaeth fewnol o becyn a ddatblygwyd gan y Prosiect Llythrennedd Carbon yn benodol ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae 20 Swyddog o fewn y Gweithgorau â Thema wedi mynychu'r hyfforddiant hwn ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae'n rhaid i gam nesaf yr hyfforddiant ganolbwyntio ar Aelodau Etholedig ac Uwch Reolwyr ar draws y Cyngor a rhaid rhoi ystyriaeth i gyllideb ac amser ar gyfer hyn.

Byddai'r gweithwyr yn ehangach yn elwa o gwblhau cyflwyniad mwy sylfaenol at newid yn yr hinsawdd, ac mae Cyngor Sir y Fflint yn arwain comisiwn sector cyhoeddus rhanbarthol i hwyluso datblygiad modiwl e-ddysgu ar gyfer hyn.

Mae camau wedi cael eu cymryd wrth bontio tuag at fod yn 'Gyngor di-bapur' drwy ddarparu caledwedd er mwyn i Aelodau allu cael mynediad

	<p>at Becynnau Adroddiad yn ddigidol. Fel rheol, nid yw copiâu papur o adroddiadau yn cael eu hanfon allan oni bai y gwneir cais penodol amdanynt. Mae'r broses hon yn parhau i fynd rhagddi i nodi rhwystrau pellach i ddefnyddio pecynnau adroddiad digidol. Mae angen gwneud gwaith ymgysylltu pellach i wella newid ymddygiad ymhlith Swyddogion ac Aelodau. Mae meysydd eraill sy'n defnyddio papur ar draws y Cyngor yn cael eu nodi a'u hadolygu yn unol â'r Strategaeth Ddigidol.</p>
1.09	<p>Ni fydd lleihau allyriadau carbon y Cyngor ei hun - sef tua 2% o holl allyriadau'r sir - yn cyflawni'r targed o gael Cymru di-garbon net erbyn 2050, a'r disgwyliad yw ein bod yn defnyddio ein dylanwad fel Awdurdod Lleol i annog busnesau lleol, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cyhoeddus a'r cyhoedd i weithio tuag at leihau eu hallyriadau carbon.</p> <p>Rydym wedi datblygu rhwydwaith datgarboneiddio ar gyfer ardal ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy i ddatblygu nodau ac amcanion ac i rannu arferion da ac rydym hefyd yn datblygu pecyn gwaith i fusnesau lleol allu cyfrifo eu hól troed carbon a datblygu cynllun lleihau carbon.</p> <p>Rydym wedi datblygu tudalennau 'Newid Hinsawdd' ar gyfer y cyhoedd ar wefan y Cyngor sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd gyda'r cynnydd rydym yn ei wneud ac maent hefyd yn darparu adnodd i'r cyhoedd a gweithwyr y Cyngor. Ym mis Tachwedd, fe aethom ati i lansio'r e-newyddlen Newid Hinsawdd gyda dros 900 o bobl wedi tanysgrifio iddi. Mae'r newyddlen yn tynnu sylw at brosiectau allweddol, gwybodaeth ddefnyddiol a digwyddiadau lleol a chenedlaethol sydd ar y gweill. Mae'r pwnc 'Newid Hinsawdd' bellach wedi'i gynnwys ymhlith pynciau tanysgrifio Cyngor Sir y Fflint.</p> <p>Mae'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Rhaglen Newid Hinsawdd yn sicrhau fod yr holl grwpiau budd-ddeiliaid yn cymryd rhan ac yn cael eu cadw'n hysbys drwy amrywiaeth o gyfryngau. Yn ystod COP Cymru ym mis Tachwedd 2021, bu i'r Cyngor rannu ei arferion da drwy roi cyflwyniad ar Ffermydd Solar Sir y Fflint ac arweinyddiaeth a buddsoddiad parhaus mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru ym mis Tachwedd 2022, trefnwyd sesiynau galw heibio ar draws y sir gan ddarparu cyngor arbed ynni, cyfrifiadau ôl troed carbon a dyraniadau coed i aelwydydd Cymru fel rhan o'r rhaglen 'Fy Nghoeden, Ein Coedwig'. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer gweithgareddau i annog busnesau, preswylwyr ac ysgolion i gymryd rhan mewn camau gweithredu ar newid hinsawdd.</p> <p>Mae rhwydweithiau'n parhau i gael eu datblygu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau ymagwedd gynhwysfawr tuag at newid hinsawdd ar draws y sir. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn arwain y grwpiau rhwydweithio rhanbarthol a Chymru gyfan ar gyfer swyddogion datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus. Mae hwn yn adnodd hanfodol ar gyfer dysgu ac arddangos yr arfer orau ac mae hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cynnal prosiectau ar y cyd, lle mae pob sefydliad yn gweithio tuag at ganlyniad a rennir. Mae allbynnau o'r grwpiau hyn yn cael eu bwydo i'r Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol a gynrychiolir gan</p>

	<p>Lywodraeth Cymru. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint yn parhau i ddarparu amgylchedd cydweithredol i bob sefydliad sector cyhoeddus wrth gyflawni uchelgeisiau carbon ac amgylcheddol, a'r cysylltiadau â phresgripsiynu cymdeithasol ac iechyd a lles.</p>
1.10	<p>Dylanwadau allanol:</p> <p>Mae adroddiad Archwilio Cymru 'Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022, yn gwneud pum galwad am weithredu gan gyrff cyhoeddus:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Atgyfnerthu eich arweinyddiaeth a dangos eich cydgyfrifoldeb drwy gydweithio effeithiol. - Egluro eich cyfeiriad strategol a chyflymu eich dull gweithredu - Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen - Gwybod beth yw eich bylchau mewn sgiliau a chynyddu eich capasiti - Gwella ansawdd data a'r dulliau monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau. <p>Fel Cyngor, rydym wedi cryfhau ein harweinyddiaeth drwy benodi Aelod Cabinet Newid Hinsawdd ymroddedig, Pwyllgor Newid Hinsawdd ffurfiol a gweithgorau swyddogion trawsadrannol i ddangos cydgyfrifoldeb drwy gydweithio. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid sector cyhoeddus i gael gwell dealltwriaeth o'r cyllid sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio, ac i rannu arferion gorau gyda data o ansawdd gwell. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i gynyddu cyflymder gweithrediad y prosiectau lleihau carbon a mwy o gapasiti lle mae bylchau o ran sgiliau drwy ddarparu'r buddsoddiad angenrheidiol.</p> <p>Ym mis Gorffennaf 2022, bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad Datgarboneiddio Gofal Cymdeithasol yng Nghymru hefyd, sy'n amlygu'r camau allweddol sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus i ddeall yr allyriadau carbon o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn well ac i sicrhau bod camau gweithredu i ddatgarboneiddio yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau strategol. Mae Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor eisoes yn cwmpasu sawl agwedd yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu fel rhan o broses adolygu'r strategaeth yn 2024/25. Yn yr adolygiad hwn, bydd cynnwys a manylion yn cael eu cymharu â'r 'map llwybr Gofal Cymdeithasol' i sicrhau bod y maes gwasanaeth hwn yn cael ei gynrychioli'n effeithiol. Bydd angen i adroddiadau allyriadau carbon i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gynnwys dadansoddiad ar wahân o'r allyriadau o ofal cymdeithasol.</p> <p>Addaswyd y fethodoleg ar gyfer y data allyriadau carbon 2021/22 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gynnwys y mesurau newydd mewn perthynas â gweithio gartref. Mae gan y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifo'r allyriadau hyn Wyriad Safonol Perthynol uchel iawn oherwydd bod y data angenrheidiol yn anodd i'w nodi. Er mwyn gwneud y data hwn yn ystyrlon ac yn adlewyrchiad cywir o'r effeithiau carbon o weithio gartref, mae arnom angen cael gwell dealltwriaeth o faint o amser mae ein gweithwyr yn ei dreulio yn gweithio gartref. Gallai'r casgliad data</p>

	<p>hwn gael ei gyfuno â'r arolwg 'gweithwyr yn cymudo' ehangach. Oherwydd anghyfartalwch y data, a gan nad yw'r allyriadau o weithio gartref wedi cael eu cynnwys yn ein ffigyrau gwaelodlin, nid ydym wedi cynnwys hyn yn y cwmpas ar gyfer ein hadroddiad data allyriadau carbon 2021/22.</p> <p>Wrth ychwanegu allyriadau gweithio gartref yn 2021/22, a gofal cymdeithasol yn 2022/23, mae'n bosib y gall symud y pyst o ran adrodd gael effaith andwyol ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran lleihau ein hallyriadau carbon. Dylid penderfynu os y dylid cynnwys unrhyw newidiadau i'r fethodoleg mewn adroddiadau mewnol yn y dyfodol neu os y dylid cadw at y ffigyrau gwaelodlin gwreiddiol.</p> <p>Ym mis Rhagfyr 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaethau ynni rhanbarthol a Chynlluniau Ynni Ardal Leol yn ei dull i greu cynllun ynni cenedlaethol erbyn 2024. Mae'r ymarfer hwn yn mapio cyflenwad ynni a'r galw am ynni yn y dyfodol ar gyfer pob rhan o Gymru i nodi bylchau a galluogi cynllunio ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae Strategaeth Ynni a Chynllun Gweithredu Gogledd Cymru wedi cael eu datblygu drwy weithgor sector cyhoeddus a'u cymeradwyo gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn awr, mae angen i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu gael eu cefnogi gan bob Cyngor, a bydd y gwaith o weithredu hyn yn cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru.</p> <p>Mae Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn arwain ar ddatblygu'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol a bydd gwaith gyda phob Cyngor yn dechrau yn 2023. Mae Cynllunio yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a bydd y Cynllun Ynni Ardal Leol yn llywio buddsoddiad lleol a chenedlaethol a phenderfyniadau ar ofynion y dyfodol ar gyfer ynni ar draws pob sector.</p>
1.11	<p>Ni fydd newid sylweddol yn digwydd o fewn y sefydliad heb ddigon o gapasiti. Gall hyn fod ar ffurf adnoddau dynol i arwain a rheoli prosiectau neu adnoddau ariannol i fuddsoddi pan fo angen, neu hefyd y ddealltwriaeth a'r ewyllys wleidyddol o sylweddoli buddion hirdymor y penderfyniadau a wneir heddiw.</p> <p>Mewn cyfnod o galedi ariannol, mae'n bwysig cyfiawnhau sut mae penderfyniadau gwario yn cael eu gwneud. Mae blaenoriaethu un maes brys dros un arall yn ymwneud â pha mor ddifrifol mae'r Cyngor yn ystyried ei gyfrifoldebau o ran yr uchelgais i fod yn garbon sero net. Mae gan y Cyngor gofnod o ymrwymo i fuddsoddi mewn prosiectau gwyrdd wedi'u hamlygu yng Nghynllun y Cyngor a rhaid parhau â hyn i gyflawni'r targedau uchelgeisiol sydd wedi'u gosod.</p> <p>Rydym wedi buddsoddi yng nghapasiti staff i arwain ar ddarparu'r strategaeth Newid Hinsawdd, fodd bynnag, rydym yn awr angen defnyddio gwybodaeth a sgiliau penodol i ddatblygu ac arwain newid wrth ddatgarboneiddio ein Fflyd, Adeiladau a Chaffael. Dylid lleoli'r rolau hyn o fewn y timau sy'n arwain ar y camau allweddol i leihau allyriadau carbon o'r meysydd gwaith hyn.</p>

	<p>Fe wnaeth y Cyngor lwyddo i gael prentis gradd mewn 'Ynni Carbon Isel a Chynaliadwyedd' drwy fenter Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn sgiliau gwyrdd. Mae'r lleoliad hwn mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ac mae eisoes yn profi i fod yn adnodd gwerthfawr i'r rhaglen.</p>
1.10	<p>Drwy weithio i gyflawni'r nodau hyn, gall Cyngor Sir y Fflint wneud ei gyfraniad er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a sicrhau Cymru sero net erbyn 2050 fel y manylir yn y Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021. At hynny, cyflawni nodau lles y Cyngor a'r rhai hynny yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gan fod newid hinsawdd a'r amgylchedd â chysylltiad mor agos at ei gilydd, bydd y Cyngor hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o fewn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth.</p>

2.00	GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU
2.01	<p>Bydd angen adnoddau cyfalaf a referniw i barhau i wella effeithlonrwydd ynni mewn asedau adeiladau. Lle bo'n bosibl, bydd benthyciadau SALIX ac arian allanol yn cefnogi'r rhaglen hon. Nid yw'r costau wedi'u pennu eto.</p>
2.02	<p>Bydd angen adnoddau cyfalaf i wella'r isadeiledd gwefru cerbydau trydan i gefnogi trosglwyddo i fflyd o gerbydau trydan. Bydd y costau gosod (oddeutu £600,000) yn cael eu cefnogi gan gyllid allanol.</p>
2.03	<p>Amcangyfrifir y bydd costau y cam nesaf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr oddeutu £1.1m. Gellid ariannu hyn drwy fenthycia darvoudus.</p>
2.04	<p>Mae angen staff ymroddedig i symud ymlaen â datgarboneiddio'r fflyd a chaffael. Mae cyfleoedd yn bodoli i ddefnyddio Swyddog Caffael ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych.</p>
2.05	<p>Er mwyn addysgu a hysbysu swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar gamau newid hinsawdd, mae'n hanfodol bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gwblhau hyfforddiant Llythrennedd Carbon. Mae darparu'r hyfforddiant hwn yn fewnol yn arbed oddeutu £34,000 i'r Cyngor mewn referniw hyfforddiant. Y gost amcangyfrifedig ar gyfer darparu'r hyfforddiant hwn i Aelodau Etholedig ac Uwch Reolwyr yw £2,000.</p>

3.00	ASESIAD O EFFAITH A RHEOLI RISG
3.01	<p>Bydd risg sylweddol i enw da'r Cyngor Sir os nad yw'n cael ei weld yn arwain ar symud tuag at fod yn garbon sero net.</p> <p>Bydd y risg ariannol yn cael ei hasesu fesul prosiect ond bydd diffyg cyllid mewnol ac allanol yn lleihau'r camau y gellir eu cymryd.</p>

3.02

Effaith Egwyddorion Ffyrdd o Weithio (Datblygu Cynaliadwy)

Hirdymor	Cadarnhaol: Bydd datgarboneiddio gweithgareddau a gwasanaethau'r Cyngor yn gofyn am gynllunio hirdymor a gweledigaeth hirdymor i sicrhau bod systemau a gwasanaethau yn addas i'r diben wrth i'r hinsawdd newid yn ogystal â lleihau effeithiau niweidiol newid yn yr hinsawdd drwy liniaru. Bydd gan weithgareddau datgarboneiddio megis plannu coed a datblygu ynni adnewyddadwy effeithiau hirdymor dros ddegau i gannoedd o flynyddoedd. Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn cyfrannu at y targedau newid hinsawdd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig y targed i Gymru gynhyrchu 70% o'r galw am drydan drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2030 a dod yn genedl carbon sero net erbyn 2050.
Atal	Cadarnhaol: Er mwyn osgoi effeithiau niweidiol newid hinsawdd, mae angen i'r Cyngor leihau ei allyriadau carbon a chynyddu faint o garbon gaiff ei storio yn ei asedau tir. Allyriadau carbon a achosir gan weithgareddau dynol yw prif achos newid yn yr hinsawdd. Bydd lliniaru newid hinsawdd o gymorth i leihau effeithiau megis tywydd eithafol sy'n achosi llifogydd / gwres eithafol, colli bywyd gwylt a chynefinoedd, mwy o blâu ac afiechydon ac ati. Bydd addasu i effeithiau newid hinsawdd yn awr yn gwella cynaliadwyedd ein cymunedau wrth i'r hinsawdd newid.
Integreiddio	Cadarnhaol: Mae dod yn garbon sero net yn integreiddio gyda'r blaenoriaethau canlynol o dan Gynllun y Cyngor; Cyngor Gwyrdd, Cyngor Uchelgeisiol a Chyngor Cefnogol. Mae'n integreiddio gydag amcanion y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ym mlaenoriaeth yr Amgylchedd y Cynllun Lles yn ogystal â'r prosiect Mynediad Clyfar at Ynni ym Margen Dwf Gogledd Cymru. Mae hefyd yn integreiddio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a rhaglen datgarboneiddio'r sector cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.
Cydwethio	Cadarnhaol: Mae'r rhaglen newid hinsawdd yn cynnig sawl cyfle i gydweithio yn fewnol ac yn allanol - a bydd y gwaith ar

	<p>y cyd hwn yn pennu llwyddiant y rhaglen. Mae angen cydweithio gyda'r grwpiau canlynol i sicrhau bod datgarboneiddio yn rhan annatod o bopeth y mae'r Cyngor a'r rhanbarth ehangach yn ei wneud ac yn paratoi ar ei gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Llywodraeth Cymru - Sefydliadau sector cyhoeddus eraill megis awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, byrddau iechyd, prifysgolion. - Sector preifat - Grwpiau rhanbarthol megis Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Cynghorwyr Sir a Thref Lleol - Cymunedau lleol
Cyfranogi	<p>Cadarnhaol: Os yw datgarboneiddio am fod yn llwyddiannus ac os yw newid hinsawdd niweidiol am gael ei osgoi, yna bydd angen i bawb ar lefel broffesiynol a phersonol gymryd rhan.</p>
<p>Effaith Nodau Lles</p>	
Cymru Lewyrchus	<p>Cadarnhaol: Dylai lleihau allyriadau carbon y Cyngor alluogi buddsoddiad strategol mewn prosiectau a ffyrdd o weithio a allai gyflawni arbedion neu greu ffyrddau incwm newydd, a chefnogi darpariaeth gwasanaethau lleol. Fe ddylai hefyd hwyluso datblygiad economi carbon isel drwy brosiectau isadeiledd, plannu coed yn barhaus, rheoli tir ac ati, sy'n gallu cefnogi cymunedau a busnesau lleol.</p>
Cymru Gydnerth	<p>Cadarnhaol: Bydd datgarboneiddio gweithgareddau a gwasanaethau'r Cyngor yn hyrwyddo gwytnwch drwy gamau gweithredu, megis:</p> <p>buddsoddi mewn isadeiledd ynni adnewyddadwy sydd o gymorth i leihau dibyniaeth ar fewnforio o Ewrop a'r byd a'r newid cysylltiedig mewn prisiau, a chynyddu gwytnwch ecolegol drwy wella bioamrywiaeth yn enwedig ar dir gyda gwerth ecolegol isel. Trwy gynllunio ar gyfer addasu newid hinsawdd, bydd gwasanaethau'r Cyngor a'i gymunedau hefyd yn gydnerth.</p>

	Cymru Iachach	Cadarnhaol: Mae datgarboneiddio yn galw am newid i deithio llesol, buddsoddi mewn isadeiledd gwyrdd, cefnogaeth ar gyfer ffynonellau bwyd lleol a chynaliadwy, a datblygu ynni adnewyddadwy sy'n debygol o hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach, gwella lles a lleihau effeithiau iechyd o ganlyniad i ansawdd aer gwael.
	Cymru sy'n Fwy Cyfartal	Niwtral; Ni nodwyd unrhyw effaith
	Cymru sy'n Gydlynol	Niwtral; Ni nodwyd unrhyw effaith
	Cymru sy'n Fywiog	Niwtral; Ni nodwyd unrhyw effaith
	Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang	Cadarnhaol: Mae lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net yn helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac felly'n cyfrannu at gyflawni nodau hinsawdd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac ar lefel ryngwladol.
3.03	Ni ragwelir unrhyw effeithiau gwrth-dlodi, cydraddoldeb neu amgylcheddol negyddol yn gysylltiedig â'r cynllun.	
3.04	<p>Amcanion Lles y Cyngor</p> <p>Bydd datgarboneiddio gweithgareddau'r Cyngor yn cefnogi'r amcan Cyngor Gwyrdd gydag effaith allweddol o leihau allyriadau carbon i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy ddatblygu ynni adnewyddadwy ac amgen, hyrwyddo teithio llesol, newid i gerbydau fflyd trydan, ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi a hyrwyddo economi carbon isel drwy'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir.</p> <p>Gall hefyd gyfrannu at lwyddiant amcanion lles eraill y Cyngor megis 'Cyngor Uchelgeisiol' a 'Chyngor Gofalgar' drwy greu swyddi lleol a phrentisiaethau ac, o bosib, lleihau tlodi drwy gynyddu incwm a chyflogadwyedd preswylwyr.</p>	

4.00	YMGYNGHORIADAU SY'N OFYNNOL / WEDI'U CYNNAL
4.01	

5.00	ATODIADAU
5.01	<p>Atodiad 1 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Allyriadau Carbon CSFf</p> <p>Atodiad 2 - Cynnydd y Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd</p>

6.00	RHESTR O DDOGFENNAU CEFNDIR HYGURCH
6.01	1. Ffyniant i bawb - Cymru carbon isel https://www.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-carbon-isel-cymru

--	--

7.00	MANYLION Y SWYDDOG CYSWLLT
7.01	Swyddog Cyswllt: Alex Ellis – Rheolwr Rhaglen Rhif ffôn: 01352 703110 E-bost: alex.ellis@flintshire.gov.uk

8.00	RHESTR TERMAU Caiff y rhain eu darparu yn gorfforaethol ar yr Infonet (dolen) a'u cynnal gan y Swyddfa Weithredol
	<p>Arian Cyfalaf: Mae arian cyfalaf fel arfer yn cael ei ddefnyddio i gaffael neu i wella ased hirdymor megis offer neu adeiladau.</p> <p>Allyriadau Carbon: Caiff y term hwn ei ddefnyddio yn gyfnewidiol gydag allyriadau nwyon tŷ gwydr; sy'n golygu allyriadau carbon deuocsid, methan ac ati o ffynonellau a gweithgareddau dynol a naturiol. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr ehangach yn cael eu cyfrifo ar y cyd i 'gywerthedd carbon deuocsid' a nodir fel CO₂e.</p> <p>Dal a storio carbon: y broses a ddefnyddir i ddal carbon a storio carbon deuocsid atmosfferig yn hirdymor.</p> <p>Datgarboneiddio: Lleihau ac, yn y pen draw, cael gwared ar garbon deuocsid ac allyriadau nwyon tŷ gwydr eraill.</p> <p>CT: Cerbyd Trydan</p> <p>Carbon Sero Net: Cydbwysu allyriadau carbon â gwaredu carbon neu ddileu allyriadau carbon yn gyfan gwbl.</p> <p>Cyllid Refeniw: caiff ei ddefnyddio ar gyfer eitemau a fydd yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyflogau, gwres, goleuadau, gwasanaethau ac unrhyw gyfarpar bach. Mae gwaith trwsio cyffredinol yn wariant refeniw a gall gynnwys gwaith trwsio sylweddol nad yw'n gwella nac yn ymestyn oes yr ased.</p>